

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol SA1, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 29 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	20
4.	Y camau nesaf .....	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	32

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol SA1, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 29 Mehefin 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd saith gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Canolfan Feddygol SA1 yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w chleifion. Roedd ymatebion y cleifion a gafwyd drwy holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y practis naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion ym mhob ardal aros, yr oedd rhywfaint ohoni'n ddwyieithog. Gallai cleifion hefyd gael gwybodaeth ar ffurf ddigidol.

Roedd mynediad gwastad i'r practis a oedd yn galluogi defnyddwyr cadair olwyn neu'r rheini â phroblemau symudedd i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd aros ac roedd yr ardaloedd trin wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod neu ar y llawr cyntaf. Roedd lifft ar gael i'r llawr cyntaf.

Roedd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y practis, ond nid oedd yr aelodau hyn o'r staff yn gwisgo bathodynau laith Gwaith i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, roedd derbynnydd a oedd yn rhugl mewn iaith arwyddion i gleifion byddar neu drwm eu clyw. Roedd dolen sain ar waith hefyd.

Nodwyd materion yn ymwneud ag ardal y dderbynfa a rhoi proses llywio gofal ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion eu cynnal yn ardal y dderbynfa.
- Diweddarau polisiau i adlewyrchu newidiadau
- Rhoi proses ysgrifenedig ar waith i sicrhau llwybr llywio gofal clir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn ysgrifenedig ac yn ddigidol
- Trin cleifion mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar yn y meddygfeydd gan ddiogelu eu hurddas
- Cyfleusterau da i gleifion ag anabledau yn y practis.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod staff Canolfan Feddygol SA1 yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y practis yn lân ac yn daclus at ei gilydd. Roedd gan yr holl ystafelloedd trin gyfarpar da ac roeddent o faint da.

Er i arferion da gael eu nodi, gwnaethom nodi nifer bach o faterion yn ymwneud ag eitemau meddygol a gwiriadau cyfarpar. Gwelsom hefyd faterion amrywiol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Gwelwyd bod y cofnodion meddygol o safon dda, ond roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â Chodau Read.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Mae angen rhestr wirio ar gyfer y cyfarpar yn y bag argyfwng
- Mae angen gweithdrefn ddadebru benodol i'r practis
- Mae angen archwiliadau atal a rheoli heintiau
- Sicrhau cydymffurfiaeth ag amserlenni glanhau
- Tacluso pob ystafell drin er mwyn gallu eu glanhau'n ddigonol
- Trwsio neu newid cadeiriau wedi'u difrodi yn yr ystafelloedd aros.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn cwblhau'r lefel o hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'w rôl
- Mae angen i'r rheolwyr sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Gwella Codau Read ar gofnodion meddygol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dilyn gweithdrefnau storio cadwyn oer
- Aseidiadau risg cyfredol
- Trefniadau parhad busnes.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd tystiolaeth bod proses sefydlu gynhwysfawr ar waith, a gaiff ei dilyn gan sesiynau goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, gwelsom fylchau o ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal â'r arweinwyr tîm perthnasol, ond nid oedd cyfarfodydd practis llawn yn cael eu cynnal. Gwnaethom argymhell y dylid datblygu proses ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cymryd a'u dosbarthu'n briodol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau, yn dibynnu ar eu rôl
- Datblygu a rhoi amserlen hyfforddiant gorfodol ar waith
- Sicrhau y caiff yr holl hyfforddiant gorfodol ei gwblhau mewn modd amserol
- Datblygu a rhoi amserlen archwilio lawn ar waith ar gyfer y practis, i gynnwys archwiliadau atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo blynyddol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ffurfioli proses ar gyfer cyfarfodydd staff i gynnwys pob aelod o'r staff
- Rhoi proses ar waith i ddangos canlyniadau adborth gan gleifion a wnaeth ddylanwadu ar welliannau a wnaed yn y practis

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Strwythur rheoli clir ar waith yn y practis
- Cydweithio da â gofal clwstwr ac eilaidd
- Mynediad at hyfforddiant er mwyn galluogi datblygiad proffesiynol parhaus

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Rydw i a'm teulu'n cael gofal eithriadol gan y practis hwn bob amser.”*

*“Staff derbynfa ardderchog.”*

*“Rydw i wedi defnyddio Meddygfa SA1 ers 2006 ac mae'n rhaid imi ddweud fy mod i wastad wedi cael gwasanaeth a chymorth gwych gan bob meddyg teulu yn y practis hwn... Yn fy ngwaith yn y sector gofal cymdeithasol, rydw i wedi sylwi dros y blynyddoedd diwethaf fod meddygfeydd yn gyffredinol yn cael trafferth ymdopi â mwy o gleifion a llai o adnoddau. Does dim amheuaeth fod hyn yn wir am Feddygfa SA1 hefyd ond sut bynnag y caiff tîm y feddygfa ei reoli, sut bynnag y caiff ei weithredu, gallai / dylai gael ei ddefnyddio fel esiampl i feddygfeydd eraill o sut i weithio / ymdopi gorau y gallant gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddynt.”*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Dewch nôl â'r system trefnu apwyntiadau ar-lein gan fod system y ciw yn hirwyntog iawn.”*

*“Weithiau, mae'n anodd cael ateb ar y ffôn. Wedyn ceir gwybod eu bod ond yn derbyn argyfyngau.”*

*“Byddai'n haws defnyddio'r system trefnu apwyntiadau ar-lein.”*

Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried y sylwadau a'r ymatebion a gafwyd gan gleifion er mwyn gwella gallu cleifion i drefnu apwyntiadau er mwyn sicrhau y gall cleifion gael apwyntiadau mewn modd amserol.

## Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

### Hybu Iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn y practis wedi'i harddangos ar hysbysfyrddau amrywiol yn yr ardal aros ar ddau lawr y practis.

Gwelsom amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar wefan y practis, y gallai maint y testun gael ei chwyddo ar gyfer pobl ag amhariad ar y golwg. Dywedwyd wrthym hefyd y gallai'r meddygon teulu a'r nyrsys argraffu cyngor hybu iechyd yn ystod ymgynghoriad claf pe bai angen.

Roedd gan y practis gydymaith iechyd meddwl y gallai'r cleifion gael eu hatgyfeirio ato ac roedd yn cynnig gwasanaeth cwnsela yn y practis. Roedd fferylllydd clwstwr yn mynychu'r practis a hefyd parafeddyg clwstwr a oedd yn cynnal ymweliadau â chartrefi. Cawsant eu disgrifio fel caffaeliad i'r practis.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd y cwestiwn penodol yn yr holiadur wrthym eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod deunydd hybu iechyd ar gael yn hawdd. Roedd yr holl staff yn yr holiadur yn cytuno bod amrywiaeth o gyngor hybu iechyd ar gael yn rhwydd i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi trefnu clinigau brechu rhag ffliw'r gaeaf i gleifion. Caiff amseroedd y clinigau eu cytuno pan ddaw'r brechlynnau i law, a drefnir fel arfer fel clinigau galw i mewn yn hwyr yn y prynhawn neu gyda'r nos.

Roedd prosesau ar waith i fonitro, mynd ar drywydd a chofnodi achosion lle na wnaeth cleifion fynychu eu hapwyntiadau, a hynny yn apwyntiadau'r practis a'r ysbyty. Roedd y broses hon yn cynnwys cysylltu â rhieni neu warcheidwaid plant o dan 16 oed.

### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd y galwadau ffôn yn cael eu derbyn a'u gwneud o'r swyddfeydd i fyny'r grisiau yn ardal y staff neu yn y swyddfa gefn y tu ôl i ardal desg y dderbynfa, er mwyn ceisio sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd. Fodd bynnag, ceir derbynfa a rennir â phractis meddyg teulu arall, felly ni ellir cynnal cyfrinachedd. Adlewyrchir hyn yn yr holiadur i gleifion lle roedd pedwar claf yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' eu bod yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb eu clywed ar ddamwain.

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff mesurau eu cymryd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion.**

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau a bod llenni preifatrwydd a/neu gloeon yn cael eu defnyddio pe bai angen i gynnal urddas y claf. Roedd hebryngwyr ar gael yn y practis ac roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei hysbysebu'n dda iawn ym mhob rhan o'r practis. Roedd yr holl staff a ddefnyddiwyd fel hebryngwyr wedi cael yr hyfforddiant priodol. Roedd y cleifion yn cael cynnig ystafell breifat os oeddent yn dymuno trafod unrhyw beth yn gyfrinachol er mwyn parchu eu preifatrwydd.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod hyn yn gymwys a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, a bod mesurau wedi cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion, gan gynnwys y defnydd o hebryngwyr.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Aeth y cleifion i apwyntiadau mewn person, dros y ffôn neu drwy wefan y practis. Cawsom wybod y gallai'r ffonau fod yn brysur iawn a byddai mwy o linellau ffôn neu system giwio o gymorth. Dangoswyd i ni fod system deleffoni newydd ar waith.

**Rhaid i'r practis ddiweddar ei bolisi mynediad i adlewyrchu'r newidiadau diweddar.**

Roedd rheolwr y practis yn y broses o greu rhestr gynhwysfawr o symptomau cyffredin a phwy fyddai'n delio â'r rheini. Diben hyn oedd sicrhau bod staff y dderbynfa'n gallu brysbennu cleifion a llywio gofal, gan gyfeirio at wasanaethau eraill lle bo angen. Roedd y meddygon ar y safle yn gyfrifol am frysennu'r holl gleifion ar adeg yr arolygiad. Gallai apwyntiadau brys cael eu cyflwyno yn ôl disgresiwn y meddyg ar alwad. Er i ni gael gwybod bod capasiti digonol ar gael yn fewnol fel arfer, gellir cael help ar gyfer problemau aciwt gan Wasanaeth Gofal Brys y Bwrdd Iechyd hefyd. Byddai'r holl gleifion dan 16 oed yn cael eu gweld ar yr un diwrnod. Rhoddwyd cyngor rhwydo diogelwch i'r holl gleifion, ni waeth beth oedd eu hoedran, o ran pryd i ailgysylltu â'r practis neu wasanaethau gofal eilaidd os nad yw eu cyflwr yn gwella neu os yw'n gwaethygu.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses ysgrifenedig yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl i sicrhau bod derbynyddion yn cael llwybr llywio gofal clir.**

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur ac a oedd yn teimlo bod y cwestiwn y gymwys eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys. Roedd yr holl gleifion a atebodd yn hapus â'r math o apwyntiad a gynigir a dywedodd bron pob un o'r cleifion ei fod yn gallu trefnu apwyntiadau arferol pan oedd angen.

Dywedwyd wrthym y byddai meddyg yn brysbennu dros y ffôn ar gyfer unrhyw un a oedd yn cyflwyno pryderon iechyd meddwl a byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud am asesiad gan y tîm iechyd meddwl lle roedd angen. Gwnaethom adolygu nodiadau o glaf yn cyflwyno problemau iechyd meddwl brys a gwelsom fod y broses yn cael ei dilyn fel yr esboniwyd. Lle y cafodd atgyfeiriad ei wneud ar gyfer claf nad oedd yn cyrraedd y trothwy iechyd meddwl gofal eilaidd, byddai ail-atgyfeiriad am ailasesiad yn cael ei wneud, gan uwchgyfeirio i lefel meddyg ymgynghorol lle bo angen. Roedd y staff hefyd yn gwybod sut i gyfeirio at wasanaethau cwnsela amrywiol y trydydd sector pan fo'n berthnasol.

Wrth ateb y cwestiynau am ofal cleifion, cytunodd pob aelod o'r staff y gallai cleifion gael gafael ar wasanaethau meddyg teulu mewn modd amserol.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom adolygu sut roedd gwybodaeth o ofal eilaidd yn cael ei chofnodi a'i gweithredu arni. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei choladu gan y staff gweinyddol a fyddai'n sganio'r dogfennau a dderbyniwyd ar gopi caled. Byddai'r rhain yn cael eu hanfon yn electronig, naill ai at y meddyg a enwyd neu at y partneriaid. Roedd problemau brys yn cael eu hamlygu er mwyn gweithredu arnynt ar yr un diwrnod. Fel arall, byddent yn gweithio trwyddynt yn raddol. Er i'r amseroedd ymateb amrywio, ni nodwyd unrhyw ôl-groniad sylweddol.

Dangosodd astudiaeth o gofnodion deg claf fod gan yr holl lythyrau a oedd i'w gweld yn y system glinigol gamau gweithredu wedi'u cofnodi wrthynt. Cawsom wybod bod gwybodaeth yn cael ei rhoi ar lafar i gleifion mewn perthynas â'u cyflwr iechyd lle y bo'n berthnasol ac roedd taflen wybodaeth i gleifion yn ategu hyn. Nid oedd codau Read ar gyfer y rhain ar hyn o bryd. Lle roedd claf yn cael ei ryddhau o ofal eilaidd, byddai'r practis yn cysylltu â'r claf dros y ffôn neu drwy neges destun.

**Rydym yn argymhell bod y practis yn ychwanegu codau Read at gofnodion clinigol pan fydd taflen wybodaeth i gleifion yn cael ei dosbarthu.**

Disgrifiodd y practis ffyrdd addas o gyfathrebu â chleifion pe bai angen cyfleu negeseuon neu lle roedd newidiadau wedi'u gwneud yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfathrebu wyneb yn wyneb, posterï ar yr hysbysfyrddau yn y practis,

negeseuon testun, diweddariadau ar y wefan a llythyrau. Gwnaed negeseuon mewnlol i ddiweddarau'r staff ynghylch newidiadau trwy bost y GIG, tasgau a negeseuon melyn yn y system wybodaeth i gleifion.

Roedd proses yn cael ei dilyn i sicrhau bod staff clinigol yn ymwybodol o unrhyw ddiagnosis newydd neu newidiadau yng nghyflwr claf, ac roedd hyn i weld yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid oedd polisi na phrotocol i bennu beth i'w anfon ble na phryd. Cawsom wybod bod newidiadau i feddyginiaeth yn cael eu hanfon at y fferylllydd ac roedd popeth arall yn mynd trwy'r meddyg teulu neu'n cael ei ffeilio os nad oedd angen cymryd camau gweithredu pellach. Roedd tystiolaeth o'r cofnodion a adolygwyd yn dangos nad oedd codau Read yn cael eu defnyddio'n gywir bob amser wrth gofnodi llythyrau.

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff polisi a phrotocol eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybod yn llawn am y broses gywir o ble a phryd i anfon gwybodaeth am newidiadau meddygol ar gyfer claf. Rhaid i hyn gynnwys y defnydd cywir o godau Read.**

Roedd rhai aelodau o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ni wnaethom weld unrhyw un yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' er mwyn i'r cleifion adnabod aelodau o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg. Roedd deunydd dwyieithog ar gael drwy'r practis a cawsom wybod bod deunydd darllen hawdd ei ddeall ar gael hefyd. Lle nad oedd hyn ar gael, roedd yn cael ei gynnig. Roedd modd i'r practis gael gafael ar wasanaethau cyfieithu drwy'r Bwrdd Iechyd pan oedd angen hynny. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

**Mae angen i'r practis ddarparu bathodynau 'Iaith Gwaith' i bob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg a sicrhau y cynigir y 'Cynnig Rhagweithiol' i gleifion.**

Pe bai gan glaf anawsterau clywed a bod angen iddo ddarllen gwefusau, dywedodd rheolwr y practis wrthym pe bai angen defnyddio cyfarpar diogelu personol, y byddai'r staff yn gwisgo feisor clir yn hytrach na masg wyneb. Gwnaethom hefyd siarad ag un derbynnydd a oedd yn rhugl mewn iaith arwyddion. Gwelwyd arferion canmoladwy lle roedd rhybuddion ar y system electronig yn tynnu sylw'r staff at sefyllfaoedd amrywiol, gan gynnwys problemau gyda'r clyw neu'r golwg. Roedd dolen sain gudd wedi'i gosod hefyd.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth addas ar waith a oedd wedi'i adolygu'n ddiweddar. Roedd y polisi hwn yn dangos sut byddai'r practis yn cynnal hawliau unigolyn a sut byddai'n cymhell cydraddoldeb. Goruchwyliwyd y maes ymarfer hwn gan bedwar meddyg teulu a wnaeth sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg.

Roedd hyfforddiant gorfodol pob aelod o'r staff ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyfredol.

Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn deall eu rolau wrth sicrhau bod yr holl gleifion a chydweithwyr yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu. Dangoswyd tystiolaeth i ni o asesiadau risg ac addasiadau rhesymol a oedd wedi'u rhoi ar waith.

Roedd mynediad gwastad i'r practis a oedd yn galluogi defnyddwyr cadair olwyn neu'r rheini â phroblemau symudedd i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Yn ogystal, roedd lifft ar gael pe byddai'r apwyntiad yn cael ei gynnal yn unrhyw un o'r ystafelloedd trin ar y llawr cyntaf. Roedd y ddwy ardal aros yn fawr, fel ag yr oedd yr ystafelloedd trin a welwyd. Roedd y toiledau yn addas i gadair olwyn.

Er mwyn sicrhau mynediad cyfartal, byddai meddygon teulu neu'r parafeddyg clwstwr yn cynnal ymweliadau â chartrefi. Roedd cartref gofal yn cael ei gefnogi gan y practis hefyd. Dywedwyd wrthym y byddai slotiau apwyntiad dwbl weithiau'n cael eu trefnu ar gyfer y cleifion hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Gwelsom fod y practis yn cynnal hawliau cleifion trawsryweddol ac yn trin dewisiadau mewn modd sensitif. Gwelsom dystiolaeth fod gan y system electronig negeseuon naid i dynnu sylw at ragenwau ac enwau a ffefrir cleifion, lle roedd y rhain yn wahanol i'w henw neu eu rhywedd adeg geni.

Nododd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r practis.

Yn yr holiadur, gwnaethom ofyn i'r cleifion am gymorth i ofalwr hefyd. Dim ond tri o'r cleifion a ddywedodd eu bod yn gofalu am unigolyn ag anabledau, anghenion gofal hirdymor neu salwch angheuol. Dywedodd dau o'r cleifion eu bod wedi cael cynnig asesiad o'u hanghenion fel gofalwr. Fodd bynnag, atebodd y tri chlaf fod staff y practis wedi rhoi manylion sefydliadau neu rwydweithiau cymorth a allai roi gwybodaeth a chymorth iddynt fel gofalwr.

Nid oedd dros hanner yr aelodau staff a atebodd ein holiadur yn gwybod bod y practis yn cadw cofrestr o'r cleifion a oedd yn ofalwyr ac nid oeddent yn gwybod ychwaith y dylid cynnig asesiad i ofalwyr o'u hanghenion. Yn yr un modd, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn gwybod y dylent gyfeirio gofalwyr i sefydliadau cymorth. Nid oedd y rhan fwyaf o'r staff yn siŵr a oedd gan y practis hyrwyddwr gofal.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau am ddarparu asesiad o angen i ofalwyr, ac i sicrhau eu bod yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad fel y bo angen.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar asesiadau risg amgylcheddol ac asesiad risg iechyd a diogelwch cyfredol ar gyfer y practis.

Roedd biniau offer miniog ym mhob ystafell drin, a hynny mewn man diogel. Fodd bynnag, gwelwyd bod modd i unrhyw un fynd at un bin offer miniog a oedd yn ardal y dderbynfa. Trafodwyd hyn â'r practis a chafodd ei symud yn ddiogel o'r ardal yn ystod yr arolygiad. Roedd arwyddion digonol wedi'u gosod yn yr ardal lle roedd biniau gwastraff clinigol yn cael eu storio er mwyn rhybuddio'r staff, cleifion ac ymwelwyr am y perygl perthnasol.

Darparodd y practis gopi o'i Gynllun Parhad Busnes a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol yr oedd ei hangen. Roedd trefniant "cyfeillio" ar waith gyda phractis cyfagos o fewn y clwstwr i sicrhau bod system gyflenwi ar waith mewn sefyllfaoedd eithafol.

Byddai'r meddyg teulu a'r parafeddyg clwstwr yn cynnal ymweliadau â chartrefi pan fyddai angen. Byddai'r cais am ymweliadau â chartrefi yn destun asesiad risg ac yn cael ei hwyluso lle bo angen gan roi'r holl ragofalon angenrheidiol ar waith.

Cafwyd trafodaethau â rheolwr y practis ynglŷn â'r prosesau ar waith i gofnodi a rheoli digwyddiadau o bwys a rhybuddion diogelwch cleifion. Ymdrinnid â'r rhain yn briodol yn ôl pob golwg, ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ymhlith y staff. Roedd polisiâu cyfredol ar waith.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn gwybod sut i alw am help ar frys pe bai angen. Dangoswyd i ni fod botwm panig ar gael ar y sgriniau cyfrifiadurol ar gyfer pob aelod o'r staff drwy'r feddalwedd cofnodion cleifion ac roedd botwm panig ym mhob ystafell glinigol.

### Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Arolygwyd sawl ystafell drin yn y practis. Gwelsom fod y lloriau yn gadarn ac yn gyfan. Gellid sychu'r lloriau a'r arwynebau, gan olygu bod modd eu glanhau'n drylwyr. Fodd bynnag, er bod rhai ystafelloedd trin yn lân ac yn daclus ar y cyfan, gwelsom fod llawer o eitemau diangen ar arwynebau gwaith a silffoedd mewn manau eraill a fyddai'n atal glanhau yn ddigonol. Mewn un ystafell drin glinigol, roedd hi'n amlwg nad oedd ffrâm y gwely'n lân, roedd y llawr o dan y gwely trin ac



uwchlaw rheilen y llenni preifatrwydd hefyd yn llychlyd ac yn aflan. Roedd sawl cadair gorchudd finyl yn ardal y dderbynfa wedi'u treulio'n ormodol ac nid oedd hyn yn golygu bod modd eu glanhau'n ddigonol ac felly'n peri risg o atal a rheoli heintiau diangen i gleifion. Ni chafodd AGIC sicrwydd bod gweithdrefnau cadarn priodol ar waith i sicrhau bod gwaith atal a rheoli heintiau'n cael ei gynnal drwy'r amser yn y practis meddygol ac felly cyhoeddwyd llythyr Sicrwydd ar Unwaith i'r practis.

Nid oedd cofnodion Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn y practis ac nid oedd gan y practis ddogfennau COSHH llawn. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r holl sylweddau glanhau a ddefnyddid ar y safle at ddibenion iechyd a diogelwch.

**Dylai'r practis sicrhau bod copïau o gofnodion COSHH ar gael i'r staff ar y safle.**

Roedd glanhawyr contract ar waith ac edrychwyd ar amserlenni glanhau. Gan fod fframiau gwelyau a rheiliau llenni yn rhan o'r amserlenni hynny, cadarnhaodd y practis iddo gysylltu â'r contractwyr i sicrhau cydymffurfiaeth.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau ar waith yn y practis. Roedd hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar ac ar gael i bob aelod o'r staff. Y Nyrs Arwain oedd yr arweinydd atal a rheoli heintiau ond dywedodd y nyrs nad oedd yn gwybod mai ei chyfrifoldeb hi oedd hyn. O ganlyniad, ni chyflawnwyd archwiliadau atal a rheoli heintiau. Ffurfiodd hyn ran o'r llythyr Sicrwydd ar Unwaith a gyhoeddwyd i'r practis. Gwelsom dystiolaeth o archwiliad gwastraff gofal iechyd a gwblhawyd yn ddiweddar, a oedd yn benodol i'r safle.

Edrychwyd ar bolisi feirysau a gludir yn y gwaed, ac ystyriwyd ei fod yn addas at y diben. Roedd polisiâu ar waith hefyd yn ymwneud ag anafiadau nodwydd a gwelsom bosteri wedi'u lamineiddio ym mhob ystafell drin yn nodi camau i'w cymryd pe bai unigolyn yn cael anaf nodwydd.

Roedd gan bob sinc mewn ardaloedd clinigol dapiau a oedd yn cael eu hagor â'r penelin. Yn ogystal, roedd gan bob ystafell finiau pedal troed. Roedd arwyddion wrth y sinciau drwy'r practis yn dangos i gleifion, staff ac ymwelwyr sut i olchi eu dwylo'n gywir.

Gwelsom sbesimenau wrin heb eu labelu ar ddesg y dderbynfa. Dywedwyd wrthym y byddai nyrs yn cael ei galw i gasglu'r rhain ac y byddai'n cael gwybod enw'r claf ar lafar gan aelod o'r dderbynfa. Pe byddent yn cael dau sbesimen, byddent yn ychwanegu'r enwau at y sbesimenau. Gallai hyn arwain at roi'r enw anghywir i'r nyrs. Os oes rhaid gadael samplau o wrin yn y dderbynfa, dylid eu labelu gydag enw a dyddiad geni'r claf.



**Dylai'r practis sicrhau lle y mae'n rhaid gadael sbesimenau wrin wrth ddesg y dderbynfa, dylid marcio enw a dyddiad geni'r claf yn glir arnynt.**

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y polisi cadwyn oer, sef y broses yr oedd y nyrs yn gallu esbonio'n glir drwyddi. Gwnaethom edrych hefyd ar y cofnod o dymereddau'r oergelloedd, a oedd yn cael ei gwblhau ddwywaith y dydd. Roedd yr oergelloedd yn destun profion offer cludadwy, roeddent yn cael eu calibradu'n rheolaidd ac roedd larymau wedi'u gosod arnynt. Roedd yr oergelloedd yn lân ac yn daclus. Roedd brechlynnau ffliw hŷn yn cael eu storio ar wahân, yn barod i gael eu casglu a'u gwaredu yn ddiogel.

Dim ond swm bach o gyffuriau heb fod yn rhai brys oedd yn cael eu cadw ar y safle ac roeddent yn cael eu cadw mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Roedd hapwiriadau o feddyginiaethau a chyffuriau a gedwid ar y safle yn cael eu cynnal gan y tîm nyrsio. Gwnaethom adolygu hapwiriad diweddar a ddangosodd fod pob un yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel yn y practis.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisiâu diogelu ar waith yn y practis a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Gwelsom siartiau llif hefyd ar waith er mwyn helpu staff i nodi unigolion sy'n wynebu risg. Roedd y practis yn adolygu'r system ar waith i fonitro cleifion nad oeddent yn mynd i apwyntiadau.

Dywedwyd wrthym y gallai'r staff gael gafael ar y tîm diogelu yn hawdd a byddai staff yn mynychu cyfarfodydd diogelu lle bo angen. Roedd cysylltiadau da rhwng y practis ac ymwelwyr iechyd, gofal lliniarol a nyrsys ardal.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn diogelu i lefelau sy'n briodol i'w swyddi.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau'r lefel o hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'w rôl.**

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth gyfyngedig o Gymhwysedd Gillick a Chanllawiau Fraser, sef dyfarniadau cyfreithiol a oedd yn gosod y 'rheolau' o amgylch pryd yr ystyrid bod plentyn yn gymwys i wneud ei benderfyniadau ei hun.

Mae angen i'r practis sicrhau bod staff, yn enwedig y staff hynny sy'n ymwneud â phlant dan 18 oed yn llwyr ymwybodol o Gymhwysedd Gillick a Chanllawiau Fraser.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Dywedodd rheolwr y practis mai nyrs y practis oedd â chyfrifoldeb am wirio dyfeisiau a chyfarpar.

Caiff gwiriadau blynyddol eu cynnal ar bob eitem o gyfarpar yn y practis a'r tro diwethaf y gwnaed hyn oedd ym mis Medi 2022. Ni ddangosodd hapwiriadau o gyfarpar unrhyw broblemau. Roedd rhestrau gwirio ar waith ar gyfer gwiriadau misol ar gyffuriau brys ond nid ar gyfarpar. Wrth edrych ar y cyfarpar brys, gwelsom nad oedd padiau diffibriliwr pediatrig yn y bag cyfarpar brys. Yn ogystal, nid oedd asesiad risg ar waith os oedd y pethau hynny wedi'u hepgor. Ymdriniwyd â hyn o dan broses Sicrwydd ar Unwaith AGIC.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Roedd yn amlwg bod gan y practis dîm gofalgarn ac ymrwymedig a oedd yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y broses atgyfeiriadau yr edrychwyd arni'n briodol. Dywedwyd wrthym y byddai'r meddygon teulu naill ai'n cwblhau eu hatgyfeiriadau eu hunain drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru, neu byddent yn arddweud atgyfeiriad i'r ysgrifenyddion meddygol ei gwblhau. Roedd pob achos brys lle roedd amheuaeth o ganser yn cael ei atgyfeirio ymhen 24 awr.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardiopwlmonaidd (CPR)

Roedd gweithiwr iechyd meddwl yn mynychu'r practis yn rheolaidd. Gwnaeth y practis frysbenneu'r cleifion hynny yr oedd angen adolygiad arnynt. At hynny, roedd ymarferydd llesiant seicolegol yn bresennol yn y practis yn aml. Gallai gweithiwr argyfwng cael gafael ar un pe bai angen.

### **Cofnodion y Cleifion**

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion meddygol electronig y cleifion. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol a'u diogelu rhag mynediad anawdurdodedig. Gwelsom fod y dilysiad dwy haen i gael gafael ar gofnodion cleifion yn effeithiol iawn wrth ddiogelu manylion cleifion.

Roedd y broses cadw cofnodion o safon dda. Fodd bynnag, gwelsom ddefnydd anghyson o godau Read heb unrhyw dystiolaeth o is-setiau lleol a dim ond cyswllt tameidiog i alluogi ymgynghoriad sy'n ymateb i broblemau. Nid oedd hi'n hawdd darllen nôl ar gofnodion cleifion bob amser.

**Mae angen i'r practis gyflwyno codau Read mwy clinigol i ddisgrifio'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion, megis yr arwyddion, symptomau, triniaethau, ymchwiliadau, galwedigaethau, diagnosis a chyffuriau a dyfeisiau.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd staff y practis i gwblhau holiadur ar-lein er mwyn casglu eu barn am weithio yn y practis. Cafwyd cyfanswm o saith o ymatebion gan staff yn y practis hwn. Roedd yr ymatebion cyffredinol a roddwyd gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan.

Dywedodd yr holl ymatebwyr ond un eu bod yn teimlo eu bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith, ond roedd pob un ohonynt yn cytuno bod ganddynt y deunyddiau a'r cyfarpar priodol i gyflawni eu dyletswyddau. Roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno bod digon o staff yn gweithio yn y practis i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Fodd bynnag, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod y cymysgedd sgiliau yn briodol.

Nododd nifer fawr o ymatebwyr eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwasanaethau meddyg teulu a'u bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ar newidiadau a gyflwynwyd a oedd yn effeithio ar eu gwaith.

Teimlai'r holl ymatebwyr yn fodlon hefyd ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'w cleifion.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Gofal cleifion yw ein prif flaenoriaeth”*

*“Tîm a rheolwyr da a chefnogol.”*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd pedwar partner meddyg teulu yn berchen ar Ganolfan SA1. Roedd yn bractis sy'n hyfforddi meddygon teulu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd oddeutu 8500 o gleifion cofrestredig yn y practis.

Roedd y practis yn cyflogi nifer o staff clinigol ac anghlinigol, gan gynnwys meddygon teulu cyflogedig, ymarferwyr nyrsio a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd gan y practis dîm o staff gweinyddol hefyd, a oedd yn ei gefnogi ymhellach. Roedd yn amlwg bod holl staff y practis yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau a bod llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm rhwng yr arweinwyr tîm perthnasol a'u staff. Byddai'r partneriaid sy'n feddygon teulu yn cyfarfod bob deufis a nodiadau'n cael eu dosbarthu. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o'r practis cyfan.

**Rhaid i'r practis ddatblygu proses ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd tîm, gan sicrhau bod cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff, er mwyn rhannu gwybodaeth a galluogi trafodaeth fel tîm cyfan.**

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd ar gael i'r staff. Fodd bynnag, roedd rhai yn hwyr yn cael eu hadolygu. Pan fyddai angen i wybodaeth gael ei rhannu â'r staff, er enghraifft ynglŷn â newid i bolisi neu weithdrefn, byddai hyn yn cael ei gyfleu'n brydlon i'r staff.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y rhaglenni ymgysylltu a llesiant a oedd ar gael i'r staff. Gallai'r staff fynd at Iechyd Galwedigaethol drwy'r Bwrdd Iechyd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad ag aelodau amrywiol o staff y practis, a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau. Roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd gan rai aelodau o'r staff nyrsio gymwysterau ychwanegol mewn meysydd fel cyflyrau anadlol. Roedd clinigau wedi'u ffurfio i gyd-fynd â meysydd arbenigol y nyrsys.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaeth AGIC ganfod tystiolaeth o'r materion canlynol yr oedd angen eu gwella ar unwaith er mwyn sicrhau bod y practis yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol:

- Diffyg hyfforddiant gorfodol mewn diogelwch tân, codi a chario, iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau a diogelu data.
- Ni allai'r rheolwyr gadarnhau pa aelodau o'r staff oedd wedi cwblhau pa hyfforddiant, heb fynd trwy ffeiliau staff unigol.

At hynny, pan ofynnwyd i gynhyrchu copïau o unrhyw archwiliadau diweddar yn y practis, er enghraifft archwiliad gwastraff gofal iechyd blynyddol, archwiliad o bryderon neu ddigwyddiadau difrifol ac archwiliad o hylendid dwylo, cawsom wybod nad yw'r rhain wedi'u cynnal ers peth amser. Felly, ni chafodd AGIC

sicrwydd fod y rheolwyr yn archwilio'r practis a'i arferion clinigol yn effeithiol. Ymdriniwyd â'r rhain o dan broses Sicrwydd ar Unwaith AGIC.

Wrth edrych ar gofnodion staff, gwelsom fod gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffeil pob aelod o'r staff. Cawsom wybod ei bod yn ofynnol i bob newydd-ddyfodiad gael gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau yn ei swydd.

Cefnogwyd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pob aelod o'r staff, ac roedd rheolwr y practis yn ymddangos yn awyddus i gefnogi datblygiad y gweithlu. Roedd y staff gweinyddol hefyd yn cael cynnig cymorth i feithrin a gwella eu sgiliau. Roedd proses sefydlu ar waith ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys meddygon locwm a oedd yn gweithio yn y practis.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r staff am eu datblygiad proffesiynol, ac roedd yr holl ymatebwyr ond un o'r farn eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Fodd bynnag, dywedodd y staff y byddai hyfforddiant cyfrifiadurol manylach o gymorth. Dywedodd bron hanner o'r staff a atebodd y cwestiwn eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd pob aelod o'r staff heblaw un nad oedd eu gwaith yn andwyol i'w hiechyd ar y cyfan. Roedd pawb yn teimlo bod y practis yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol o ran iechyd a llesiant ac roeddent yn teimlo bod eu patrwm gwaith yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r cymorth iechyd a llesiant galwedigaethol a oedd ar gael iddynt.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd prosesau priodol i'w gweld ar waith ar gyfer rhoi gwybod am bryderon ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, nid oedd polisi na gweithdrefn ar waith. Fodd bynnag, nid oedd prosesau Gweithio i Wella y GIG yn cael eu crybwyll na'u harddangos yn y practis.

**Rhaid i'r practis greu a rhoi polisi cwynion ar waith ac arddangos gwybodaeth Gweithio i Wella ar gyfer cleifion yn yr ystafelloedd aros. Mae angen i gopïau fod ar gael i'r cleifion ar gais hefyd.**

Adolygwyd cwynion y practis, roedd y rhain yn cynnwys copïau o gwynion ac ymatebion. Gwelsom fod cwynion yn cael eu hymdrin â nhw mewn modd amserol.

Gwelsom flychau awgrymiadau yn ardal y dderbynfa ac yn ystafell y staff. Byddai awgrymiadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd ac yn cael eu rhoi ar waith lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y practis yn annog adborth gan gleifion, ond nid oedd proses ar waith i roi gwybod i gleifion am ganlyniadau'r adborth hwn.

**Rhaid i'r practis roi proses tebyg i hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau'r adborth a'u hannog i barhau i gymryd rhan mewn trefniadau i wella'r practis.**

Dyweddodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn gwybod sut i fynegi pryder pe bai angen a'i fod yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff.

Gwelsom dystiolaeth bod rhai o staff y practis wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i fynegi pryder pe bai rywbeth yn mynd o'i le. Er bod hon yn broses newydd, cadarnhaodd trafodaethau â'r staff eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau. Mewn perthynas â'r ddyletswydd, ymatebodd y staff fel a ganlyn i holiadur AGIC:

- Rwy'n gwybod ac yn deall y ddyletswydd gonestrwydd - 100%
- Rwy'n deall fy rôl o ran cyrraedd Safonau Dyletswydd Gonestrwydd - 100%
- Gwnaeth fy sefydliad ein hannog i godi pryderon pan fyddai rhywbeth yn mynd o'i le ac i rannu hyn gyda'r claf - 100%

Wrth ateb ar ddigwyddiadau a phryderon, nododd pob un o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a bod y staff a oedd yn gysylltiedig â nhw yn cael eu trin yn deg. Gwnaeth pawb nodi bod eu sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad oedd camgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn digwydd eto. Cytunodd pawb heblaw un fod adborth yn cael ei roi mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Gwelsom fod systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Dywedwyd wrthym mai partner meddyg teulu oedd y Swyddog Diogelu Data dynodedig ar gyfer y practis.

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion drwy wefan y practis, a oedd yn cynnwys data yn ymwneud â gweithgarwch y practis.

Cytunodd pob aelod o'r staff a oedd yn ateb holiadur AGIC y gallent ddefnyddio systemau TGCh yr oedd eu hangen arnynt, a hynny i ddarparu gofal a chymorth da i gleifion.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Yn dilyn trafodaethau â'r staff, ni chafodd gwelliannau a nodwyd o weithgarwch archwilio eu trafod a'u rhannu'n ffurfiol â'r staff.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi dull mwy ffurfiol ar waith ar gyfer trafod a rhannu gwaith archwilio a chanlyniadau, er mwyn galluogi'r tîm cyfan i ddysgu a gwella.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Rhoddodd y staff wybod i ni fod rhai cyfarfodydd amlddisgyblaethol wedi'u cynnal. Gwnaeth hyn sicrhau rhyngweithio ac ymgysylltu effeithiol â phartneriaid gofal iechyd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu'n dda â'r clwstwr meddygon teulu er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o'r heriau a wynebir yn y system ac anghenion y boblogaeth. Fodd bynnag, teimlai'r staff nad oedd canlyniadau'r cyfarfodydd hynny'n cael eu rhannu.

**Rhaid i'r practis ddyfeisio proses ar gyfer dysgu a rennir ymhlith staff.**

Dywedwyd wrthym hefyd fod trefniadau da ar waith rhwng y practis a gwasanaethau gofal eilaidd, a sefydliadau trydydd sector.



## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Meddygol SA1

Dyddiad yr arolygiad: 29 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Ni chafodd AGIC sicrwydd bod system digon cadarn ar waith yn y practis i sicrhau bod yr holl gyfarpar angenrheidiol ar gael mewn achos o argyfwng.</p> <p>Yn ystod yr arolygiad, canfu AGIC nad oedd padiau diffibriliwr pediatrig yn y cyfarpar brys ac er bod cofnodlyfrau ar waith i wirio dyddiadau dirwyn i ben y meddyginiaethau brys, nid oedd gwiriadau'n cael eu gwneud ar faint o gyfarpar oedd ar gael.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod padiau diffibriliwr pediatrig ar gael mewn achos o argyfwng, neu cyflawni a dogfennu asesiad risg i weld a oes angen y rhain</li> <li>Sicrhau bod prosesau digonol ar waith i wirio lefelau cyfarpar a dyddiadau dirwyn i ben y cyfarpar hwn.</li> <li>Rhoi gweithdrefn ddadebru penodol i'r practis ar waith.</li> </ul>	<p>Mae'r rhain bellach wedi'u harchebu ac wedi dod i law'r feddygfa ac wedi'u rhoi gyda'r diffibriliwr mewn cwpwrdd brys yn ystafell y nyrsys.</p> <p>Rydym wedi diweddarau ein system wirio brys i gynnwys ein cyfarpar brys.</p> <p>Rydym bellach wedi rhoi gweithdrefn ddadebru penodol i'r practis ar waith gan</p>	<p>Jayne Rees</p> <p>Jayne Rees</p> <p>Dr E Howells</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Gorffennaf 2023</p> <p>Gorffennaf 2023</p>

<p>At hynny, nid oedd polisi na gweithdrefn dadebru yn y practis.</p>		<p>ddefnyddio canllawiau'r cyngor dadebru.</p>		
<p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gweithdrefnau cadarn priodol ar waith i wneud yn siŵr bod prosesau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu cynnal yn y practis meddygol.</p> <p>Wrth arsylwi'r practis, gwelsom fod rhai ystafelloedd trin yn anniben a fyddai'n atal rhag eu glanhau'n ddigonol. Mewn un ystafell drin glinigol, roedd hi'n amlwg nad oedd ffrâm y gwely'n lân, roedd y llawr o dan y gwely trin ac uwchlaw rheilen y llenni preifatrwydd hefyd yn llychlyd ac yn aflan.</p> <p>Roedd sawl cadair llethr yn ardal y dderbynfa wedi'u treulio'n ormodol ac nid oedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu rhaglen hyfforddi briodol ar gyfer y nyrs arwain ar gyfer atal a rheoli heintiau</li> <li>• Sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant cyfredol priodol ar atal a rheoli heintiau, yn dibynnu ar eu rôl</li> <li>• Cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau blynyddol</li> <li>• Cynnal archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd</li> <li>• Sicrhau y caiff yr amserlen lanhau ei newid i gynnwys fframiau gwelyau, rheiliau llenni a phob ardal berthnasol arall</li> </ul>	<p>Mae'r nyrs wedi cwblhau e-ddysgu ar atal a rheoli heintiau lefel 2. Bydd yr holl aelodau eraill o'r staff yn cwblhau hwn i'r lefel briodol ar gyfer eu swydd.</p> <p>Bydd Jayne Rees a Mandy Clarke yn ymgymryd â'r rhain</p> <p>Fel uchod</p> <p>Rydym wedi cysylltu â'r cwmni glanhau drwy e-bost ac wedi clywed nôl ganddo i ddiweddar eu hamserlen lanhau a oedd yn cynnwys fframiau gwelyau a rheiliau llenni. Caiff hon ei hanfon at bob aelod o'r staff glanhau, er</p>	<p>Jayne Rees</p> <p>Anne Simons</p> <p>Joanne Lewis</p>	<p>4 Gorffennaf 2023</p> <p>Gorffennaf 2023</p>

<p>hyn yn golygu bod modd eu glanhau'n ddigonol ac felly'n peri risg o atal a rheoli heintiau diangen i gleifion.</p> <p>Nid oedd archwiliadau atal a rheoli heintiau wedi'u cwblhau, gan gynnwys archwiliadau hylendid dwylo.</p> <p>Nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant priodol i'r arweinydd atal a rheoli heintiau nac i staff eraill y practis.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tacluso pob ystafell drin er mwyn gallu ei glanhau'n ddigonol</li> <li>• Trwsio neu newid y cadeiriau sydd wedi'u difrodi yn ardal y dderbynfa.</li> </ul>	<p>mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Cafodd gwaith tacluso ei wneud ar 29.6.23 ond ar ôl i chi ymweld â'r ystafell</p> <p>Bydd Mace Upholstery yn dod ar yr wythnos yn dechrau ar 10.7.23 i dynnu gorchuddion yr holl gadeiriau angenrheidiol a'u hail-orchuddio.</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>29 Mehefin 2023</p> <p>Gorffennaf 2023</p>
<p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y systemau a'r gweithdrefnau rheoli sydd ar waith yn ddigon cadarn i sicrhau bod y practis yn cael ei lywodraethu mewn modd digonol.</p> <p>Yn ystod ein harolygiad, canfu AGIC dystiolaeth o'r materion canlynol y mae angen eu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu, cyflwyno a chynnal amserlen hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn bodloni'r gofynion diweddaraf</li> </ul>		<p>Anne Simons</p>	<p>4 Gorffennaf 2023</p>

<p>gwella ar unwaith er mwyn sicrhau bod y practis yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffyg hyfforddiant gorfodol mewn diogelwch tân, codi a chario, iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau a diogelu data</li> <li>• Ni allai'r rheolwyr gadarnhau pa aelodau o'r staff oedd wedi cwblhau pa hyfforddiant, heb fynd trwy ffeiliau staff unigol.</li> </ul> <p>At hynny, pan ofynnwyd i gynhyrchu copiâu o unrhyw archwiliadau diweddar yn y practis, er enghraifft archwiliad gwastraff gofal iechyd blynyddol, archwiliad o</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal matrices hyfforddiant i nodi pa aelodau o'r staff a oedd wedi cwblhau pa hyfforddiant gorfodol ac a oedd yr hyfforddiant hwn yn gyfredol</li> <li>• Datblygu a rhoi amserlen lawn o archwiliadau ar waith ar gyfer y practis.</li> </ul>	<p>Rydym wedi rhoi matrices hyfforddiant ar waith er mwyn i bob aelod o'r staff wneud hyfforddiant gorfodol gan ddefnyddio taenlen excel a Blue Stream Academy.</p> <p>Bydd hwn yn cael ei fonitro'n aml i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl hyfforddiant ac yn cael ei ddiweddarau.</p> <p>Caiff archwiliadau eu datblygu ar gyfer yr archwiliad gwastraff gofal iechyd blynyddol, ailgyflenwi'r ystafell, ac archwiliadau rheoli haint, a bydd taenlen</p>	<p>Anne Simons/ Jayne Rees</p>	<p>23 Gorffennaf 2023</p>
--	--	---	------------------------------------	-------------------------------

<p>bryderon neu ddigwyddiadau difrifol ac archwiliad o hylendid dwylo, cawsom wybod nad yw'r rhain wedi'u cynnal ers peth amser. Felly, ni chafodd AGIC sicrwydd fod y rheolwyr yn archwilio'r practis a'i arferion clinigol yn effeithiol.</p>		<p>yn cael ei datblygu i sicrhau eu bod yn gyfredol bob amser.</p>		
---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd Practis Meddygol SA1:**

**Enw (priflythrennau): Anne Simons**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 06 Gorffennaf 2023**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Meddygol SA1

Dyddiad yr arolygiad: 29 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwnaed rhai sylwadau gan gleifion mewn perthynas â chael apwyntiadau a'u hanallu i drefnu apwyntiadau ar-lein.	Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried y sylwadau a'r ymatebion a gafwyd gan gleifion er mwyn gwella gallu cleifion i drefnu apwyntiadau er mwyn sicrhau y gall cleifion gael apwyntiadau mewn modd amserol.	Mae trefnu apwyntiadau ar-lein wrthi'n cael ei drafod. Yn ogystal, bydd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ar-lein gyda'r ap newydd (pan fydd yn fyw)	Anne Simons	Chwe mis
Roedd ardal y dderbynfa a'r ddesg trefnu apwyntiadau yn cael eu rhannu â phractis meddyg teulu arall a oedd yn golygu na ellid cynnal cyfrinachedd.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff mesurau eu cymryd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion.	Bydd rhaid trafod hyn â'r practis arall a'r Landlord i astudio pa newidiadau y gallwn ni eu gwneud	Anne Simons	12 mis



<p>Yn ystod yr arolygiad, dangoswyd i ni fod system deleffoni ar waith yn y practis i helpu gyda'r galw.</p>	<p>Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi mynediad i adlewyrchu'r newidiadau diweddar.</p>	<p>Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>Bob blwyddyn</p>
<p>Gwnaethom nodi bod rheolwr y practis yn y broses o lunio rhestr gynhwysfawr o symptomau cyffredin, a phwy fyddai'n ymdrin â nhw, er mwyn sicrhau y gallai staff y dderbynfa frysbenneu cleifion a llywio gofal yn briodol.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses ysgrifenedig yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl i sicrhau bod derbynyddion yn cael llwybr llywio gofal clir.</p>	<p>Bydd hwn yn parhau i gael ei ddiweddarau dros y misoedd nesaf.</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>Fel y bo angen</p>
<p>Nid oedd cofnodion Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn y practis ac nid oedd gan y practis ddogfennau COSHH llawn. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r holl sylweddau glanhau a ddefnyddid ar y safle at ddibenion iechyd a diogelwch.</p>	<p>Dylai'r practis sicrhau bod copïau o gofnodion COSHH ar gael i'r staff ar y safle.</p>	<p>Mae copïau papur o'r adroddiadau hyn ar gael yng nghwprdd y glanhawyr. Mae gennym bellach fynediad i'w porth gyda'r holl wybodaeth newydd wedi'i hychwanegu ato.</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>Cânt eu hadolygu pan fydd gwybodaeth newydd yn cael ei hychwanegu a phan fydd y cwmni glanhau yn ei hysbysu.</p>

<p>Gwelsom sbesimenau wrin heb eu labelu ar ddesg y dderbynfa. Dywedwyd wrthym y byddai nyrs yn cael ei galw i gasglu'r rhain ac y byddai'n cael gwybod enw'r claf ar lafar gan aelod o'r dderbynfa. Pe byddent yn cael dau sbesimen, byddent yn ychwanegu'r enwau at y sbesimenau. Gallai hyn arwain at roi'r enw anghywir i'r nyrs.</p>	<p>Dylai'r practis sicrhau lle y mae'n rhaid gadael sbesimenau wrin wrth ddesg y dderbynfa, dylid marcio enw a dyddiad geni'r claf yn glir arnynt.</p>	<p>Aethpwyd i'r afael â hyn ac ni ddylid gadael sbesimenau wrin yn y dderbynfa heb eu labelu</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>Caiff ei adolygu'n rheolaidd</p>
<p>Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth gyfyngedig o Gymhwysedd Gillick a Chanllawiau Fraser, sef dyfarniadau cyfreithiol a oedd yn gosod y 'rheolau' o amgylch pryd yr ystyrid bod plentyn yn gymwys i wneud ei benderfyniadau ei hun.</p>	<p>Mae angen i'r practis sicrhau bod staff, yn enwedig y staff hynny sy'n ymwneud â phlant dan 18 oed yn llwyr ymwybodol o Gymhwysedd Gillick a Chanllawiau Fraser.</p>	<p>Rhoddir gwybodaeth i'r holl staff perthnasol fel y bo'n briodol</p>	<p>Eleri Howells</p>	<p>3 mis</p>

Ar ôl astudio cofnodion cleifion, daeth i'r amlwg nad oedd codau Read ar gyfer achosion pan oedd taflenni gwybodaeth i gleifion yn cael eu dosbarthu ar gyfer eu cyflwr a/neu ddiagnosis.	Rydym yn argymhell bod y practis yn ychwanegu codau Read at gofnodion clinigol pan fydd taflen wybodaeth i gleifion yn cael ei dosbarthu.	Bydd hyn yn cael ei drafod â'r holl staff clinigol ac yn cael ei roi ar waith.	Eleri Howells	3 mis
Er bod proses yn cael ei dilyn i sicrhau bod staff clinigol yn ymwybodol o ddiagnosis newydd neu newidiadau i gyflwr claf, gwelsom nad oedd polisi na phrotocol ffurfiol ar gael.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff polisi a phrotocol eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybod yn llawn am y broses gywir o ble a phryd i anfon gwybodaeth am newidiadau meddygol ar gyfer claf. Rhaid i hyn gynnwys y defnydd cywir o godau Read.	Bydd hyn yn cael ei drafod â'r holl staff clinigol ac yn cael ei roi ar waith.	Eleri Howells	3 mis
Roedd rhai o aelodau staff y practis yn siarad Cymraeg, ond nid oedd yr un ohonynt yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' i ddangos hyn i gleifion.	Mae angen i'r practis ddarparu bathodynau 'laith Gwaith' i bob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg a sicrhau y cynigir y 'Cynnig Rhagweithiol' i gleifion'.	Mae'r staff bellach yn gwisgo laniardau a bathodynau	Anne Simons	12 mis - wrth i staff newydd gael eu cyflogi
Nid oedd dros hanner yr aelodau staff a atebodd ein holiadur yn gwybod bod y	Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau am ddarparu asesiad o	Mae'r gofrestr gofal ar waith, mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o hon a byddant yn ei	Anne Simons	3 mis

<p>practis yn cadw cofrestr o'r cleifion a oedd yn ofalwyr ac nid oeddent yn gwybod ychwaith y dylid cynnig asesiad i ofalwyr o'u hanghenion.</p>	<p>angen i ofalwyr, ac i sicrhau eu bod yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad fel y bo angen.</p>	<p>thrafod yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i Ganolfan Gofalwyr Abertawe am daflenni i'w harddangos yn y dderbynfa.</p>		
<p>Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn diogelu i lefelau sy'n briodol i'w swyddi. Fodd bynnag, roedd rhai heb wneud yr hyfforddiant.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau'r lefel o hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'w rôl.</p>	<p>Mae'r matrices hyfforddiant bellach ar waith ac mae unrhyw hyfforddiant a oedd yn weddill wrthi'n cael ei gwblhau</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Gwelwyd bod y broses o gadw cofnodion o safon dda drwy ein hasesiad. Fodd bynnag, gwelsom ddefnydd anghyson o godau Read heb unrhyw dystiolaeth o is-setiau lleol a dim ond cyswllt tameidiog i alluogi ymgynghoriad sy'n ymateb i broblemau. Nid oedd hi'n hawdd darllen nôl ar gofnodion cleifion bob amser.</p>	<p>Mae angen i'r practis gyflwyno codau Read mwy clinigol i ddisgrifio'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion, megis yr arwyddion, symptomau, triniaethau, ymchwiliadau, galwedigaethau, diagnosis a chyffuriau a dyfeisiau.</p>	<p>Bydd hyn yn cael ei drafod â'r staff clinigol</p>	<p>Eleri Howells</p>	<p>6 mis</p>

<p>Gwelsom er bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal rhwng yr arweinwyr tîm perthnasol a'u staff, nid oedd cyfarfodydd practis cyfan yn cael eu cynnal.</p>	<p>Rhaid i'r practis ddatblygu proses ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd tîm, gan sicrhau bod cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff, er mwyn rhannu gwybodaeth a galluogi trafodaeth fel tîm cyfan.</p>	<p>Mae cyfarfodydd bellach yn cael eu monitro'n ffurfiol a'u cynnal yn rheolaidd.</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Roedd prosesau priodol i'w gweld ar waith ar gyfer rhoi gwybod am bryderon ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, nid oedd polisi na gweithdrefn ar waith. Ni chafodd y broses Gweithio i Wella ar gyfer cleifion y GIG ei chrybwyll na'i harddangos yn y practis.</p>	<p>Rhaid i'r practis greu a rhoi polisi cwynion ar waith ac arddangos gwybodaeth Gweithio i Wella ar gyfer cleifion yn yr ystafelloedd aros. Mae angen i gopïau fod ar gael i'r cleifion ar gais hefyd.</p>	<p>Mae polisi ar waith ac mae posteri wedi'u harchebu ar gyfer y dderbynfa</p>	<p>Anne Simons</p>	<p>6 mis</p>
<p>Gwelsom fod y practis yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr meddygon teulu er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o'r heriau a wynebir yn y system ac anghenion y boblogaeth. Fodd bynnag, teimlai'r staff nad oedd</p>	<p>Rhaid i'r practis ddyfeisio proses ar gyfer dysgu a rennir ymhlith staff.</p>	<p>Bydd unrhyw aelodau o staff perthnasol y mae angen iddynt wybod manylion y cyfarfod Clwstwr yn cael eu hysbysu drwy e-bost ar ôl pob cyfarfod.</p>	<p>Eleri Howells</p>	<p>3 mis</p>

canlyniadau'r cyfarfodydd  
hynny'n cael eu rhannu.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Anne Simons**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 21 Medi 2023**